




# LLAIS YR ANDES







## MEDI 2019

# Anturiaethau'r Andes dros y misoedd diwethaf!

# Dewch i ddarllen!

Adrannau:

1. Ysgol y Cwm, Trevelin
2. Canolfan Gymraeg Esquel
3. Ffrindiau o Gymru
4. Y gymuned



**Rhifyn arbennig o Llais yr Andes wedi ei olygu gan Meleri Williams a Sara Dafydd o Brifysgol Caerdydd.**

# Gair o Ddiolch

Annwyl bawb,

Hoffem ddiolch o waelod calon am y croeso cynnes a'r holl brofiadau rydym wedi derbyn dros y mis diwethaf. Ry'n ni wedi cwrdd â chymaint o bobl ysbrydoledig a hyfryd ac mae'ch ymroddiad a'ch diddordeb tuag at yr iaith Gymraeg wir yn anhygoel ac yn codi calon!

Rydym wedi dysgu gymaint ac wedi creu atgofion bythgofiadwy. Mae'r holl ganu, dawnsio a chymdeithasu wedi'n gwneud i deimlo'n gartrefol iawn yn Nhrevelin ac Esquel.

Diolch hefyd am y cyfle arbennig i olygu rhifyn o bapur Llais yr Andes a rhoi ein sgiliau newyddiadurol ar waith!






Diolch i glocswyr Llanrwst!






**Diolch yn fawr i griw Ysgol Bro Gwydr, Llanrwst am ymweld ag Ysgol y Cwm ym mis Awst.**

**Fe gafodd y plant amser bendigedig yn dysgu sut i glocsio gyda Cai, Caron, Leusa, Nanw, Hannah, Jony a Dylan. Diolch!**










# PENBLWYDD HAPUS STORMI!















# Cardiau Penblwydd Stormi wrth blant Ysgol y Cwm






















Bu dathliadau mawr brynhawn Gwener y 6ed o Fedi i ddathlu penblwydd Stormi yn 3 oed. Cafwyd llwyth o gemau, cacennau a chanu ar gyfer y dathliad mawr. Penblwydd hapus Stormi!








# Dod i adnabod… Francis!



Helo! Francis dw i.  Dwi'n byw yn Nhrevelin. Ces i fy ngeni yma.  Dwi´n 18 oed. Dwi'n cael fy mhenblwydd yn Hydref 3.

Dechreias i astudio Cymraeg pan o´n i´n 6 oed efo Jessica Jones yn Ysgol Yr Andes. Ar ol, es i cwrs wlpan gyda Isaias a Gwion. Y llynedd dechreuais i cwrs pellach gyda Margarita ac eleni dw i ddim yn mynd achos does ddim amser gyda fi.

Eleni, dechreuais i  astudio yn y Prifysgol yn Esquel i bod yn athrawes ysgol gynradd, dwi'n mynd bob nos. Yn y bore dwi´n gweithio yn Ysgol y Cwm yn helpu Blwyddyn 2 efo athrawon Judith a Nia. Dw i wrth fy modd efo fy ngwaith yma oherwydd, dwi´n gallu ymarfer Cymraeg efo'r plant ac athrawon. Dwi´n hoffi gweithio efo athrawon achos mae'n nhw'n neis iawn a hwyl.



Dwi´n hoffi dawnsio gwerin "Cwm Hyfryd" ydy enw y grwp. Dyn ni'n ymarfer pob dydd Sadwrn yn y bore. Dyn ni'n perfformio yn Eisteddfod Trevelin, Eisteddfod Chubut, cyngherddau, ffeiriau a seremoniau. Cawson ni amser da!

Dwi´n hoffi cerdded yn y mynyddoedd, coginio, darllen, peintio, marchogaeth yn yr eira yn Sierra Colorada efo'r ffrindiau a trin gwallt y ci.




Dwi'n hoffi cerddoriaeth y 70s, 80s a 90s. Yn enwedig Queen. Hefyd, dwi'n hoffi cerddoriaeth Gymraeg, fy hoff ganwr yw Dafydd Iwan.


# O un Cwm i'r llall...
# Llythyrau gan Ysgol y Cwm, Abertawe.


*Fe dderbyniodd Ysgol y Cwm, Trevelin amlen arbennig iawn yn llawn llythyrau gan blant Ysgol Gynradd y Cwm yn Abertawe. Buodd y plant yn brysur yn pori drwy'r llythyrau cyn ymateb... dyma'r gwaith...*


## Rhai o lythyrau Ysgol y Cwm, Abertawe:


Ysgol Gymraeg y cwm
Jersy Rd
Bonymaen,
Abertawe,
Cymru
gorffenaf 10ed


Annwyl ffrind,
Fy enw i yw Jessica a rydw i yn mynd i ysgol Gymraeg y cwm. Rydw i yn 10 mlwydd oed a rydw i yn byw gyda fy mam, dad, brawd a 2 ci o'r enw Sparci a chipi. Fy hoff bwnc i yw gwyddoniaith. A un o fy bwnciau dydw i ddim yn hoffy yw mathemateg. Fy hoff peth i gwneid pryd dydw i ddim yn ysgol yw cymryd y ci mas am walk gyda dad. yn yr ysgol mae 145 ac mae 2 Plant mewn bl.6 a 4 o blant yng Bl.5. mae na 2 adeilad, 5 iard ~~chw~~ chwarae ac rydw ni yn siarad cymraeg. Rydw ni gyda 2 cwningen ac Pwyllgor fell Siarter iaith, ysgol iach, eco a mwy. Mae na pethau i gwneid fell clybiau ar ôl ysgol, Gwersi arddaciaeth. Mae'r tywedd yn OK. Yn y haf mae en heulog neu Mae en bwrw glaw. Mae gandda ni yn cymru Sinemas, traethau a lot o car. Beth ydych ysgol chi fell? Hwyl fawr am nawr. Jessica.






Ysgol Gymraeg y Cwm
Jersy road
Bonymaen
Abertawe
Cymru
11/07/2019


Anwyl ffrind
Hello fy enw i yw Ollie a rydw i yn byw yn Abertawe .
Rydw i yn 9 blwydd oed ac yn mynd i Ysgol Gymraeg y Cwm.
Enw athrawes i yw Mrs Pryce. Rydw i yn hoffi TGCh ond dydw i ddim yn hoffi mathemateg. Mewn blwyddyn 6 mae 2 plant a mewn Blwyddyn 5 mae 4 plant. Rydw i yn byw gyda mam, dad a chwair bach Chloe. Mae gen pedwar anifeiliad anwes, dau cath Solo a Liea a dwy bochdewr Bella a Cariad.
Gobeithio siarad eto a hwyl fawr am nawr.
Ollie


Ysgol Gymraeg y Cwm,
Jersey Road
Bonymaen,
Abertawe,
Cymru,
10ed o Orffenaf

Annwyl ffrind,
Fy enw i yw Amara ac rydw i yn mynd i ysgol gymraeg y cwm yn Abertawe. Rydw i yn blwyddyn 4 ac rydw i yn 9 blwydd oed. Roeddwn i wedi cael fy geni fyn y blwyddyn 2009 ac mae'r fy mhenblwydd i ar y 9fed o'r Tachwedd. Rwyn byw gyda fy Mam, Dad, chwaer ac fy ngath yn lle o'r enw Cymuyn Parc. Mae'r fy hoff lliw i yn gwyrddlas ac fy hoff anifail i ydy'r blaidd.
Agorodd ein hysgol yn mis Medi 2012 gyda 9 o o blant. Nawr mae na 145 o blant yma. Y blwyddyn 6 mae na 2 o blant, yn blwyddyn 5 mae na 4 o blant ac yn blwyddyn 4 mae na 27 o blant ac yn y dosbarth ogsan mae na 29 o blant. Mae na 2 adeilad, 5 iard chwarae ac rydyn ni'n hegyd yn siarad cymraeg yma. Mae'r peth orau am ein hysgol ni yw'r bod ni i gyd yn ffrindiau.
Hwyl am nawr Amara.

# Rhai o ymatebion Ysgol y Cwm, Trevelin:


Gan



| | |
|---|---|
| | Dwi'n caru Sara a Meleri |
| ENW | Kayla dwi |
| CYFENW | Sara evans |
| BYW | Dwi'n byw yn trevelin |
| YSGOL | Dwi'n mynd i YSGOL Y CWM |
| OED | Dwi'n 9 OED |
| TEULU | Dwi'n byw gyda mam a DAD |
| ANIFEILIAID | MAE genni 3 ci 4 CATH a 3 CEFFYL |
| HOFFI YN YN YSGOL | Dwi'n HOFFI chwarae TY A glas |
| DDIM YN HOFFI YN YR YSGOL | Dwi'n casau [illegible] |
| HOFFI TU ALLAN I'R YSGOL | Dwi'n caru tu allan |
| HOFF FWYD | Dwi'n caru [illegible] |
| HOFF GÂN | Dwi'n caru calon lan |
| UNRHYWBETH ARALL | Dwi'n caru Sara a Ni |

Kayla


Gan Vicente



| | |
|---|---|
| ENW | VICENTE MARTIN |
| CYFENW | COSTA LAMANNA |
| BYW | TREVELIN |
| YSGOL | YSGOL Y CWM |
| OED | 8 |
| TEULU | MAM TAD A [illegible] |
| ANIFEILIAID | 3 CI 2 CATH BACH A 1 CATH |
| HOFFI YN YN YSGOL | MATHEMATEG |
| DDIM YN HOFFI YN YR YSGOL | YSGRIFENNU |
| HOFFI TU ALLAN I'R YSGOL | ADEILADU |
| HOFF FWYD | DWI'N CARU PIZZA |
| HOFF GÂN | GWLAD [illegible] |
| UNRHYWBETH ARALL | DWI'N HOFFI Y [illegible] |




Gan Emmie



| | |
|---|---|
| ENW | Emmie Lou dwi |
| CYFENW | R. athie |
| BYW | dwin byw in Nhrevelin [illegible] |
| YSGOL | dwin mind y ysgol y cwm |
| OED | dwi 9 oed. |
| TEULU | dwin byw gyda mam dad [illegible] a 2 brawd |
| ANIFEILIAID | mae geni 3 ci a 3 [illegible] |
| HOFFI YN YN YSGOL | dwin hoffi chwarae gyda ci tu allan |
| DDIM YN HOFFI YN YR YSGOL | dwi dim yn hoffi ysgrifennu |
| HOFFI TU ALLAN I'R YSGOL | dwi hoffi [illegible] |
| HOFF FWYD | dwi caru tacos a [illegible] |
| HOFF GÂN | dwin hoffi mind [illegible] |
| UNRHYWBETH ARALL | mae enw ffrind yw Clara Ainoa gwenni a Jaulan. MAE BRAWD FI ENW RYAN ACO COLTER |


Gan Benjamin



| | |
|---|---|
| ENW | BENJAMIN. |
| CYFENW | TRONCOSO. |
| BYW | DWIN BYW YN NHEVELIN. |
| YSGOL | DWIN MIND Y YSGOL Y CWM. |
| OED | 8 OED |
| TEULU | DWIN BYW GYDA NAIN A TAIT. |
| ANIFEILIAID | 4 CIÔR ENW LOLO ROCK OALISIA SAMANTA |
| HOFFI YN YN YSGOL | DWIN HOFFI DYSGU CYMRAEG. |
| DDIM YN HOFFI YN YR YSGOL | DWIN DIMM YN HOFFI MATHEMATEG. |
| HOFFI TU ALLAN I'R YSGOL | DWIN HOFFI CHWARAE PEL droed |
| HOFF FWYD | DWIN CARU SPAGETI. |
| HOFF GÂN | DWIN CANU TAKI TAKI. |
| UNRHYWBETH ARALL | |




Gan Ainoa



| | |
|---|---|
| ENW | Ainoa Emilia |
| CYFENW | Munoz gomez Irassa |
| BYW | Nhrevelin |
| YSGOL | Ysgol y cwm |
| OED | 8 a chwaer fi 5. |
| TEULU | Mam, Dad, a 1 chwaer or enw Ioma. |
| ANIFEILIAID | 1 ci or enw Ru a 1 cath or enw Juana. |
| HOFFI YN YN YSGOL | Dwi'n caru mathemateg. |
| DDIM YN HOFFI YN YR YSGOL | Dwi'n casau ysgrifennu. |
| HOFFI TU ALLAN I'R YSGOL | Dwi'n caru telas. |
| HOFF FWYD | Dwi'n caru ñoquis. |
| HOFF GÂN | Oh dyddi. |
| UNRHYWBETH ARALL | Dwi'n caru chwarae gyda Mam Camila, Dad Jose a Chwaer Ioma. |



Gan Leon



| | |
|---|---|
| ENW | Leon maximo |
| CYFENW | Mantilla |
| BYW | trevelin |
| YSGOL | ysgol y cwm |
| OED | 9 |
| TEULU | brawd a mam |
| ANIFEILIAID | 10 anifail, 3 cath, a 1 ceffyl. |
| HOFFI YN YN YSGOL | egwyl rhedeg. |
| DDIM YN HOFFI YN YR YSGOL | mathemateg. |
| HOFFI TU ALLAN I'R YSGOL | mynd ar y ceffyl |
| HOFF FWYD | asado |
| HOFF GÂN | chacarera. michael jackson music |
| UNRHYWBETH ARALL | |

# COED TEULU

Mae plant Ganolfan Gymraeg Esquel wedi bod yn brysur yn creu ac yn dysgu am eu coed teulu. Da iawn nhw… dyma'r gwaith!




Gan Ori





Gan Arwen

Gan Emilia




Gan Victoria



Gan Rhys

# Llais i'r Andes

***Dewch i adnabod rhai aelodau dosbarth Uwch Esquel!***

## Sandra

1. ***Disgrifia dy hun mewn tri gair***
   Dw i'n gyfeillgar, sensitif ac yn dawel.
2. ***Oes gen ti unrhyw arferion gwael?***
   Does dim llawer o arferion gwael gyda fi, ond yn y nos, dw i'n chwyrnu ychydyg.
3. ***Beth yw dy hoff le yng Nghymru?***
   Caerdydd yw fy hoff le yng Nghymru, achos bues i astudio yn y brifysgol yn 2010, dau fis, Gorffennaf ac Awst.

## Romina

1. ***Beth yw dy atgof cyntaf?***
   Y diwrnod cyntaf es i ar ben fy hun rownd y sgwar.
2. ***Oes gen ti unrhyw arferion gwael?***
   Pan mae fy ngwr yn mynd i ffwrdd, dw i'n hoffi bwyta yn y gwely!
3. ***Cwrs cyntaf, prif gwrs neu bwdin…?***
   Ein ffefryn i fwyta fel teulu yw bwyty brechdanau Milanesas (cig mewn briwsion bara). Mae'n arbennig achos dim ond brechdanau milanesas i gael, dim pwdin o gwbwl, ac i yfed botel mawr o Coca Cola!

## Noe

1. ***Oes gen ti unrhyw arferion gwael?***
   Mae un yn ofnadwy o wael. Dwi'n pob tro yn cychwyn i wneud pethau yn hwyr, "procrastinar" dyn ni'n dweud fan hyn. Sai'n siwr pam, ond dwi'n credu fy mod yn byw o dan adrenalin, mae hynny ond yr un esboniad nes i ffeindio!
2. ***Beth yw dy hoff le yng Nghymru?***
   Wel, un o fy hoff lefydd yw Aberystwyth, achos bues i yno am fis yn dysgu Cymraeg a mae gen i llawer o atgofion melys. Ond mae gen i un le ffefryn yn Aber, ro'n i'n arfer mynd i cael "mate" i'r Castell ar ddydd Sul.
3. ***Beth yw dy hoff albwm?***
   Dw i wrth fy modd efo'r albwm "Dulog" gan Brigyn, achos mae'n nhw'n siarad am lefydd o Batagonia, llefydd sy pawb ohonon yn nabod, a mae'n wych clywed am eich storiau trwy'r taith dros y paith.



# Ffrindiau o Gymru yn ymweld ag Ysgol y Cwm... Criw Met Caerdydd!

*Ddechrau mis Medi fe wnaeth Sara, Gwion, Dafydd a Guto o Brifysgol Met Caerdydd ymweld â'r Andes ac Ysgol y Cwm. Dyma luniau o'u helyntion, eu hargraffiadau o'r ysgol a cherdd gan Gwion John.*

Prynhawn byr ond llawn gweithgareddau cawsom yn yr ysgol. Cawsom groeso cynnes gan yr athrawon a'r disgyblion, yn y Gymraeg a'r Sbaeneg! Aethom yn syth i ddosbarth Blwyddyn 3 gyda Nia, er mwyn cael ein cyflwyno i'r disgyblion, ac yna cawsom yr her o redeg sesiwn ymarfer corff i holl ddisgyblion yr ysgol.

Roedd sgiliau hoci'r merched yn anhygoel, ac ambell i bêl-droediwr y dyfodol yn sicr! Yn dilyn y wers/amser ymarfer corff, cawsom y cyfle i gynorthwyo yng ngwers Gymraeg blwyddyn 3, gan ganolbwyntio ar "Mae Sara'n hoffi..". Yn sicr roedd e'n brofiad gwych a bythgofiadwy i allu cynnal gwersi drwy'r Gymraeg yn Nhrevelin.

Mae dal yn anodd credu ein bod yn siarad ein mamiaith yn Ne America, a gobeithiwn yn fawr i allu dychwelyd yn y dyfodol agos. Diolch i bawb am y croeso cynnes, boed yn yr ysgol, neu yn y gymuned.





Byd anwybodus, agos,

Y cymry a fu'n glos
Wrth draed yr Andes
Adlais muchos gracias.
A fu hanes y Cymru'n
Treiddio'r acen trevelin.

Byd anwybodus, agos.




# Mwydro gyda Margo!

*Dewch i gwrdd â'n ffrind newydd o Gymru, Margo Martin, a fydd yn gwirfoddoli yn yr Andes dros y misoedd nesaf.*

**Pwy wyt ti ac o ble rwyt ti'n dod?**
Fi yw Margo Llwyd Martin, rwy'n 21 oed ac yn dod o Lanfair Caereinion yng nghanolbarth Cymru.
**Pam dod i Batagonia i wirfoddoli?**
Rwy'n astudio Sbaeneg a Gwleidyddiaeth Ryngwladol ym Mhrifysgol Aberystwyth ac eleni, roedd gen i gyfle i fynd dramor i wella fy Sbaeneg. Felly, pa le gwell i ymarfer fy Sbaeneg a dysgu Cymraeg nag ym Mhatagonia?!
**Rho tri ffaith diddorol am dy hun.**
Dwi'n efaill, rwy'n 14 munud yn hyn na fy mrawd, Gruff.
Wnes i fyw yn Azerbijan a Swistir cyn symud i Gymru pan oeddwn yn saith.
Dwi'n gallu chwarae'r triongl yn y gerddorfa.
**Beth yw dy hoff beth am y Wladfa mor belled?**
Mae clywed plant yn siarad Cymraeg yn yr Ariannin yn anhygoel! Dwi hefyd yn hoff o'r tirwedd a'r mynyddoedd enfawr - Digon o gyfle i sgio arnyn nhw!



Dyma Margo'n sgio yn La Hoya, Esquel!

# Cymru trwy lygaid Alwen Green



*Llongyfarchiadau mawr i Alwen Green, Trevelin, am ennill cystadleuaeth llenyddol 'Argraffiadau o Gymru' gan berson o'r Wladfa yn Eisteddfod Genedlaethol Llanrwst, 2019. Dyma flas o'r gwaith buddugol...*

...Braf iawn yw teimlo´r agosatrwydd sydd yn bodoli rhwng y gymuned Gymraeg yma a thraw, gwlad yr haul a gwlad y glaw... Mae fel bod gartre oddi gartre! Roedd popeth mor wahanol yng Nghymru! Roedd y croeso cynnes gan bawb sy'n ymwneud â Phatagonia, heblaw am bawb oedd yn siarad yr iaith. Roedd byw mewn tref fel Aberystwyth mor wahanol i fyw ar ffarm wrth droed yr Andes!

Yn un peth roedd oriau bwyd yn wahanol, un pryd mawr a hynny ganol pnawn, gyda chig a llysiau, a phanad o de tua deg o'r gloch y nos, i weld y newyddion ar y teledu. Roedd y plant yn mynd i'r gwely am saith. Nid yw hyn yn arferol yn y Wladfa, bydd hyn yn digwydd pan fydd pawb arall yn mynd i´r gwely.Neb yn golchi a rhoi cwyr ar y lloriau, ond "hwfro" gan fod y tai i gyd â charpedi ar y llawr.

Y ffyrdd yn gul a throellog a phawb yn gyrru mor gyflym ag oedd posib, a gweld un pentre' ar ôl y llall tra bod ni'n arfer trafeilio am chwe awr o Esquel i 'r Dyffryn a dim ond dau bentref bach sydd i'w gweld, a dyna'r unig le sydd yn gwerthu petrol. Mae'r tymhorau yn wahanol iawn yn y Wladfa. Tra yng Nghymru cefais law ddiderfyn, ond ddim llawer o rew ag eira fel sydd gennym yn yr Andes, fel dyddiau byr, tywyll, yr haul yn bell ac yn wan, nosweithiau hirion.

Mae teithio erbyn hyn mor hawdd a phoblogaidd yn yr oes yma fel bod pobl yn gallu hedfan i Frasil neu i'r Caribî yng nghanol ein gaeaf ni, ac yna mwynhau traeth a'r môr cynnes, dillad ysgafn a bwyd lliwgar.







# Croeso nôl Judith!

***Fe drueliodd Judith Ellis fis yng Nghymru ym mis Awst, dyma hi'n sôn am ei phrofiad!***

Es i i Gymru yn mis Gorffenaf i astudio ym Mhrifysgol yn Aberystwyth . Ces i ysgoloriaeth i wneud cwrs haf. Ces i amser arbennig yn Nghymru yn dysgu, nabod ac yn cwrdd â phobl o Batagonia, Canadá, Lloegr, Japan, Cymru. Oedd y Cwrs yn cynnig llawer o amser i sgwrsio ac i ymarfer gramadeg. Oedd amser paned a chinio yn rhoi cyfle i nabod pobl eraill hefyd. Es i i adnabod llefydd yng Nghymru ar y penwythnos: dw i´n ddiolchcar i ffrindiau sydd wedi cynnig mynd am dro i Aberairon a Cei Newydd,: fel Delith a Brian ,ffrindiau syn nabod Patagonia, Isaías(or Aiannin yn wreiddiol) ar teulu es i aros efo nhw yn Landarog ac adnabod Ardd Botanic, Castell Llansteffan, ar capeli ble mae Isaías yn pregythu. Ces i gyfle i wrando ar Isaías Grandis yn pregythu a gweld sut mae´r bobl yn caru fo. Dwi´n ddiolchgar i'r bobl sydd wedi cynnig help ac amser i helpu fi efo´r taith:bobl o Drevelin ac o Cymru. Collais i yr Ariannin am fis ond cyrhaeddais i nol yn hapus efo llawer o emosiynau a pethau newydd yn troi yn fy mhen. Nawr dw i¨n edrych ymlaen i ddal ati i weithio yn Ysgol y Cwm fel athrawes ysgol gynradd ac i astudio llawer mwy o Gymraeg i allu helpu efo'r dosbarthiadau iaith.

# Corau'r Cwm- Atgofion Alwen Green






Daeth llun i fy ffôn yn ddiweddar o´r flwyddyn 34 o un o gorau y Cwm, sef un Bob Owen, ble roedd Mam yn canu efo ei dwy chwaer a dau frawd.

Hwn oedd un o dau gôr yr ardal yn yr hen amser, “Côr Dwy Afon”. Ffermwyr ‘yr ochor draw’ i Afon Percy oedd hwn.

Ac un y dre dan arweiniad Bobi Williams . Y ddau yn cystadlwu yn erbyn ei gilydd yn yr Eisteddfod lleol.

Dim ond un oedd wedi hynny. Cofiaf am un Dyfed Thomas pan yn blentyn, dyna lle’r oedd fy ewythr Pennar riffiths yn canu am flynyddoedd.

Roedd fy modrub Ann Griffiths yn arwain côr plant Trevelin am rhai blynyddoedd ac yn cyfranu i bob achlysur yn y dre. A cofiaf am Nel Owen de Owen , merch Bob Owen, yn arwain cymanfaoedd ym Methel Trevelin a Seion Esquel.

Wedyn, ar ddiwedd y 70au dechreuais fynychi côr José Webber, dyn o Esquel oedd o, ac yn dod i lawr i Drevelin unwaith yr wythnos, ar ddydd Sadwrn. Ef oedd rheolwr Radio Esquel pryd hynny. Aethom i gystadlu i Eisteddfod trelew eto, ac Edith Jones yn unawdydd yn un o’r caneuon.

Wedyn, cawsom Mrs Calomeni un flwyddyn a Mónica Williams y flwyddyn canlynol i´n harwain a chystadlu yn Eisteddfod Trelew!! Coifaf i ni gael gael ein cinio yn y ´comedor estudiantil´ yn y ddinas dros y penwythnos a chael hwyl yn canu i´r myfyrwyr ar ôl bwyd!

Yn y flwyddyn 84/85 daeth Elda Griffiths o Esquel i gadw’r côr i ganu ac i ddathlu canmlynedd darganfod y Cwm gan yr Arlywydd Fontana. Ac aethom eto i’r eisteddfod. Roedd hyn pan oedd Atuel Williams yn Faer ar y dre, a fo oedd yn yn gofalu am ei chludiant yn ôl a blaen. Fe fuodd Elda yn arwein côr Seion yn Esquel am dros 20 mlynedd, gan ddechre yn 1990.

Dyma pryd daeth Elda a´r newydd fod yna rhywun o Buenos aires am ddod i fyw i´n hardal ac yn barod i arwain y côr. Dyna ni wedyn dan arweiniad Jorge de Oro. Bachgen ifanc, golygus a cherddorol.

Aethom ar y bws eto i gystadlu yn Eisteddfod Trelew a llawer o hwyl ar y daith. Nid yw ef yn canu yn Gymraeg bellach gyda´r côr.

Dydw i ddim yn cofio am un wobr cyntaf yn ystod yr holl flynyddoedd o ymarfer, canu a theithio, ond llawer o hwyl, wrth gwrs!! A dyna sy'n cyfrif pan daw criw at ei gilydd a MWYNHAU!

Ar ôl dwy flynedd yng Nhgymru, dychwelais, Hydref '79, a dyma gwrdd ar fy ffordd adre, gyda côr Trevelin eto yn cystadlu yn y Eisteddfod Trelew dan arweiniad Irvin Evans, sydd eto yn canu ond gyda chriw mwy teuluol erbyn hyn.







## Pwy fydd yma mewn can mlynedd?

*Teyrnged i Gladys a Joyce*

'Dy'n ni'n bob tro yn gofyn y cwestiwn hyn i'n hunain. Roedd Gladys Jones a Joyce Powell yn ddwy o aelodau pwysig iawn o'n cymuned ac roedd ganddyn nhw etifeddiaeth wahanol. Roedd Gladys bob tro'n paratoi a threfnu dosbarthiadau Cymraeg, ac roedd Joyce yn un o'n cantorion. Roedd hi'n caru cerddoriaeth a wnaeth hi raglen gerddorol dros y blynyddoedd.

Mae'r ddwy wedi gadael bwlch mawr ar eu holau ond mae'n nhw efo ni bob tro. Pan dy'n ni'n clywed cân arbennig neu pan dy'n ni'n siarad Cymraeg, achos mae hon yn un o'r pethau rydym ni gyd yn ei rhannu, yr iaith Gymraeg.

Mae'r awdur Archentaidd Eduardo Galeano, yn siarad am bobl sydd fel "tân", pobl sy'n gallu tanio rhywun arall efo eu hegni, efo eu personoliaeth, efo ei geiriau. *"Pobl sydd yn 'llosgi' bywyd efo cymaint o gariad a does neb yn gallu dod yn agos achos maent yn llosgi ei gilydd".* Wel… dwi'n credu bod Gladys a Joyce yn bobl fel hyn. Dysgais lawer efo'r ddwy, roedden nhw'n rhoi hwb i ni, y bobl ifanc, i wneud pethau i'r gymuned ac i'r iaith Gymraeg.

Mae cyfrifoldeb pwysig efo ni: symud ymlaen efo'u hetifeddiaeth a chadw hi achos byddwn ni ddim yma mewn can mlynedd ond daw pobl eraill fel Gladys a Joyce, neu fel ti a fi, sy'n caru'r iaith Gymraeg a'i diwylliant, "Ffrindiau newydd" a fydd yn siarad am bopeth rydyn ni'n ei garu.

Doedd hi ddim yn hawdd dweud ffarwel wrth ein ffrindiau, ond mae'n neis gwybod eu bod nhw efo ni ymhob cyfarfod ac ym mhob gair Cymraeg dy'n ni'n ynganu.

Diolch yn fawr Gladys a Joyce am eich cefnogaeth amhrisiadwy ar hyd y blynyddoedd.

Tan y byddwn yn cyfarfod eto, annwyl ffrindiau.

Gan Noe Sánchez Jenkins.

# DIOLCH GOLWG!




Diolch yn fawr i gwmni Golwg am fod mor hael trwy ddanfon rhifynau y misoedd diwethaf draw at yr Andes. Bydd y rhifynau yn cael eu dosbarthu rhwng Ysgol y Cwm a'r Ganolfan yn Esquel. Edrychwn ymlaen i'w darllen!

# DIOLCH

# AM

# DDARLLEN!